



LLYFRYN DYLUNIO A THECHNOLEG

Enw _____

Dosbarth _____

Dyddiad _____



Beth yw Dylunio Graffeg?



<https://www.youtube.com/watch?v=B7Y1Jn9rLLE>

Mae Dylunio Graffeg yn gallu bod yn bwnc anodd iawn i esbonio i rai pobl ddeall, er bod hi'n syml iawn. Fe welir graffeg o amgylch ni pob dydd. Heb graffeg mi fyddai'r byd ni'n byw mewn yn ddiflas iawn!

Allwch chi enwi pump enghraifft lle welir enghraifftiau graffeg?

1. _____
2. _____
3. _____
4. _____
5. _____

Felly, er mwyn cynhyrchu gwahanol elfennau o graffeg, mae angen Dyluniwr Graffeg. Cyfrifoldeb y person yma yw dylunio unrhyw beth fel logo, bathodyn, poster, pamffled, cylchgronau, gwefannau, arwyddion, a llawer mwy.

Cyn bod Dyluniwr Graffeg yn dechrau unrhyw brosiect, mae angen iddynt arwain pob cam o'r broses dylunio, a hefyd yn y drefn gywir. Pwrpas y broses dylunio yw sicrhau fod ansawdd y cynhyrchiad (e.e. logo) yn dda iawn.

Y BRIFF

I ddylunio ac i ail greu dail y tymhorau drwy wehyddu ffelt.

Beth yw gwehyddu ffelt gwlyb?



Ffeltio gwlyb yw'r broses o ddefnyddio cyfuniad o ffritiant, sebon a dŵr i wneud ffelt allan o ffibrau gwlan. Mae'r dŵr poeth a'r sebon yn newid pH y gwlan ac yn caniatáu i'r ffibrau agor ac ymuno gyda'i gilydd.



Dros y tudalennau nesaf, byddwch yn cael cyfle i ymarfer eich sgiliau dylunio, ac i greu patrymau a dyluniadau tymhorol, cyn bwrw ati i greu eich darn ymarferol. I orffen byddwch yn gwerthuso eich gwaith, ac yn dweud beth rydych wedi mwynhau, beth sydd wedi gweithio'n dda, beth roeddech wedi gweld yn anodd ac ati.



LLIWIAU'R TYMHORAU



Wrth ddilyn y linc ar y chwith, defnyddiwch y dudalen yma i ymarfer eich sgiliau dylunio dail.

https://www.youtube.com/watch?v=Xp9BRN2J_B0




A large empty rectangular box for drawing or coloring the leaves.

Dail y Tymhorau



Wrth i ni edrych ar ddail, meddyliwch am eu siâp, eu lliw, eu sgerbwd.

Mae sgerbwd y ddeilen yma wedi goleubwyntio gyda llinellau gwyrdd ysgafn.




Wrth dynnu'r lliw i ffwrdd, gwelwch sgerbwd ac amlinelliad y ddeilen yn glir.

Wrth ddefnyddio amlinelliad y ddeilen, ac ychwanegu lliwiau amrywiol, gallwch addasu a gwneud dyluniadau unigryw eich hun.



Dail y Tymhorau -Syniadau

Defnyddiwch y dudalen yma i dynnu amlinelliad o ddail y tymhorau.
Ewch ati wedyn i newid y lliw, ac i greu dyluniadau unigryw eich hun.
Cofiwch am y lliwiau ffelt sydd ar gael i'w defnyddio.








Syniad Gorau



Tynnwch lun eich syniad gorau.

Cofiwch y lliwiau byddwch yn defnyddio yma, bydd y lliwiau ffelt byddwch yn defnyddio yn eich darn gorffenedig.

Cofiwch nodi siâp eich deilen hefyd.



GWERTHUSO

Disgrifiwch dau beth rydych wedi mwynhau am y brosiect ar gwaith ymarferol yma.

Oes rhywbeth byddech yn newid neu gwella os byddech yn gwneud y brosiect yma eto?

GEIRFA

ffelt	ffelt gwlyb	sebon	dwr
gwasgu	Hydref	Haf	Gaeaf
Gwanwyn	oer	cynnes	gwlyb



GWEITHGAREDDAU RHIFEDD

Cyfrifo Arwynebedd Dail

Gosodwch y dail i'w mesur ar bapur sgwâr 1-cm ac amlinellwch gan ddefnyddio pensil, symudwch y ddeilen, ac yna lliwiwch du fewn yr amlinelliad.


Cyfrwch nifer y sgwariau sydd wedi'u lliwio. Weithiau nid yw'r siâp yn ffitio'n union ar y grid. Gallwn ni amcangyfrif yr arwynebedd trwy gyfrif y sgwariau sydd hanner llawn neu fwy.

TIP: Marciwch bob sgwâr rydych chi wedi'i gynnwys fel na fyddwch chi'n ei gyfrif dwywaith

Does dim angen cynnwys arwynebedd y coesyn yn eich cyfrifiadau



1 sgwâr = 1 cm²



1 sgwâr = 1 cm²





Cymesuredd

Beth yw cymesuredd?

Mae siâp yn gymesur os gallwn ni dynnu llinell drwyddo fel bod y naill ochr a'r llall i'r llinell yn edrych yn union yr un fath.

Enw'r llinell yma yw llinell cymesuredd.

Weithiau mae'n cael ei alw'n 'llinell drych' neu 'cymesuredd drych', achos petaech chi'n gosod drych ar y llinell, byddai'r adlewyrchiad yn dangos y siâp cyfan.



Meddyliwch am eich corff. Dychmygwch dynnu llinell o ben eich pen yr holl ffordd i lawr i'r llawr.

Yna meddyliwch sut olwg sydd ar eich corff ar y naill ochr i'r llinell honno.

Mae un ochr fwy neu lai'r un peth yn union â'r llall: braich ar bob ochr, coes ar bob ochr, paru clustiau, paru llygaid.

Archwilio Cymesuredd Dail

Gallwn weld llawer o gymesuredd mewn byd natur.

Edrychwch ar eich dail. Ydyn nhw'n gymesur?

Tynnwch lun, neu dychmygwch, linell o goesyn un o'ch dail, yr holl ffordd ar hyd y ddeilen i'w blaen. A yw dwy ochr y ddeilen yr un peth?

Edrychwch ar rai o'ch dail eraill: rhai o wahanol faint, a'r rhai o wahanol fathau o goeden. Ydyn nhw'n gymesur hefyd?

Yr enw ar y math o gymesuredd y gallwch ei weld yn eich dail yw cymesuredd ochrol, neu gymesuredd adlewyrchu. Dyma pryd mae gennyh chi ddwy ran union, fel delwedd ddrych.



Deunyddiau sydd eu hangen

- :: dail
- :: cyfnodolyn natur neu bapur
- :: pensiliau
- :: rhwbiwr
- :: siswrn
- :: tâp gludiog



Lluniadu Cymesuredd Dail

Defnyddiwch eich siswrn i dorri ar hyd llinell ganolog deilen: o'r coesyn i'r brig.

Yna glynwch eich hanner deilen i lawr ar ddalen o bapur.

Allwch chi gwblhau'r hanner arall?

Cymerwch eich amser, ac edrychwch yn ofalus iawn ar siâp eich deilen.

Efallai yr hoffech chi ddefnyddio pensil, fel y gallwch chi rwbio allan unrhyw gangymeriadau!

Ceisiwch sicrhau bod eich adlewyrchiad mor agos at y peth go iawn â phosib.

Fe allwch chi ychwanegu gwythiennau hefyd, os hoffech chi.

Os ydych chi am wirio pa mor gywir rydych chi wedi bod, rhowch hanner arall eich deilen (yr un torroch chi bant) dros ben eich llun a gweld sut maen nhw'n cymharu.

